NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Latanoprost–netarsudil ar gyfer glawcoma ongl agored sylfaenol neu orbwysedd ociwlar wedi'i drin yn flaenorol

02 Hydref 2024

Mae latanoprost–netarsudil (Roclanda) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl i leihau pwysedd y tu mewn i'r llygad (a elwir hefyd yn bwysedd mewnlygadol neu IOP) mewn oedolion gyda glawcoma ongl agored sylfaenol neu bwysedd uchel y tu mewn i'r llygad (gorbwysedd ociwlar), os:

- nad yw analog prostaglandin wedi lleihau IOP digon ar ei ben ei hun, ac:
  - eu bod wedi rhoi cynnig ar driniaeth gyfuno dosau sefydlog ac nid yw wedi lleihau'r IOP yn ddigonol, neu
  - bod triniaeth gyfunol dos sefydlog sy'n cynnwys beta-atalyddion yn anaddas.

Os nad ydych yn gymwys i gael latanoprost–netarsudil ond eich bod eisoes yn ei gael, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall tudalen we y GIG ar glawcoma fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall Glaucoma UK (01233 648170) roi cyngor a chymorth i chi:

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9474-8